

**Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gynradd Llandegfan
Llandegfan
Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5UW**

Rhif yr Ysgol: 6602174

**Dyddiad yr Arolygiad:
18-20 Hydref 2004**

gan

**Mr D Gwynfor Evans
W005 15682**

Dyddiad: 20 Rhagfyr 2004

**Dan rif contract Estyn:
T/18/04P**

© Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd (enw'r ysgol) fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o (enw'r ysgol) rhwng (nodwch y dyddiadau). Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth (enw'r Arolygydd Cofrestredig). Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- | | |
|----------------|---|
| Gradd 1 | da gyda nodweddion eithriadol |
| Gradd 2 | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| Gradd 3 | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| Gradd 4 | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| Gradd 5 | llawer o ddiffygion pwysig |

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfarthrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Adroddiad gan Mr D Gwynfor Evans
Ysgol Gynradd Llandegfan – Rhagfyr 2004

	Tudalen
Cynnwys	
Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	6
Safonau	7
Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	7
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	9
Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	10
Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	11
Arweinyddiaeth a rheolaeth	12
Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	12
Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	13
Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	14
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	14
Cymraeg	15
Mathemateg	16
Hanes	17
Celf	17
Addysg gorfforol	18
Addysg grefyddol	19
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	20
A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	21
B Data a dangosyddion yr ysgol	21
C Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2003	22
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad	23
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	24

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Mae Ysgol Llandegfan wedi'i lleoli ym mhentref Llandegfan, sydd yn agos i dref Porthaethwy yn Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir sydd yn bennaf ffyniannus; tua 6 y cant o'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim.
- 2 Adeg yr arolygiad, roedd 145 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 167 adeg yr arolwg diwethaf yn 1998. Mae gan 5 disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae 26 arall ar y gofrestr AAA. Mae uned AAA i wasanaethu'r ardal hefyd wedi'i lleoli yn yr ysgol.
- 3 Daw tua 23% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith ond amcangyfrifir bod tua 31% yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol erbyn diwedd CA2. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y derbyn ac am y ddau dymor cyntaf yn B1; yn dilyn hynny addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd CA2.
- 4 Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 1998. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Gorffennaf 2001.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 5 Yng nghynllun datblygu'r ysgol (CDY) ar gyfer 2004-2005, rhestrir y blaenoriaethau canlynol:
 - gwella safon y Gymraeg drwy'r ysgol a datblygu llythrennedd deul;
 - parhau i ddatblygu darpariaeth, cyfleoedd a safon addysg gorfforol drwy'r ysgol;
 - datblygu sgiliau TGCh y staff a'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol;
 - codi safon llythrennedd y bechgyn.

Crynodeb

6 Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn allweddol	Gradd yr arolygiad
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

7. Yn ystod yr arolygiad, roedd safonau cyflawniad cyffredinol y disgyblion yn y gwersi yr arsylwyd arnynt fel a ganlyn :

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Safonau cyflawniad disgyblion	17%	63%	20%	0%	0%

8. Yng nghyfnod allweddol 1 a 2, mae'r safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 2
Addysg grefyddol	Gradd 1	Gradd 2

9. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da iawn tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
10. Mae plant dan bump yn gwneud cynnydd da ym mhob un o'r medrau allweddol

Adroddiad gan Mr D Gwynfor Evans
Ysgol Gynradd Llandegfan – Rhagfyr 2004

11. Yn CA1 a CA2, cyflawna'r disgyblion safonau gradd dau mewn siarad a gwrando yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae safonau ym medrau darllen ac ysgrifennu'n radd dau yn CA1; maent yn radd dau yn Saesneg yn CA2 ac yn radd tri yn y Gymraeg. Gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm; gwnânt ddefnydd cynyddol o TGCh mewn gwahanol bynciau a chyrrhaeddant safonau gradd tri.
12. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf yn arbennig datblygiad sgiliau llafar y disgyblion. Nid yw eu sgiliau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg mor gadarn â'u sgiliau yn Saesneg ac, at ei gilydd, gradd tri yw'r safonau. Mae dwyieithrwydd yn cael ei wau'n llwyddiannus i fywyd cyffredinol yr ysgol.
13. Mae medrau creadigol a phersonol a chymdeithasol y disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae ganddynt fedrau da mewn datrys problemau.
14. Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da ac, yn gyffredinol, cyflawnant y targedau a osodir iddynt.
15. Yn 2004, ar ddiwedd CA1, roedd perfformiad y disgyblion yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon ychydig yn uwch nag ysgolion cyffelyb ledled Cymru ac yn uwch na'r canlyniadau sirol a'r clwstwr teuluol o ysgolion.
16. Yn CA2 yn 2004 ym mhroffion y CC, roedd cyrrhaeddiad y disgyblion yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg ledled Cymru ac yn uwch na chanlyniadau'r sir a'r clwstwr teuluol o ysgolion. Roedd y canlyniadau yn y Gymraeg yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae perfformiad y merched yn sylweddol well na'r bechgyn, yn arbennig yn y Gymraeg.
17. Mae agweddau disgyblion at ddysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn nodweddion rhagorol.
18. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd. Maent yn gweithio mewn dull trefnus ac yn datblygu sgiliau dysgu annibynnol pwrpasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oes gan y disgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni safonau uwch.
19. Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae'r disgyblion hyn yn datblygu'n unigolion cyfrifol ac aeddfed.
20. Mae mwyafrif llethol y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon; cyfartaledd presenoldeb dros y tri thymor llawn diwethaf oedd 94.5%.
21. Drwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion cyfle cyfartal yn datblygu'n dda iawn. Maent yn parchu amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol o fewn cymdeithas.
22. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o fyd gwaith a'r gweithle.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

23. Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
30%	53%	17%	0%	0%

24. Mae' canrannau hyn yn sylweddol uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) o 95% o wersi yn foddhaol neu well a 50% yn dda neu well. Mae ansawdd yr addysgu wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf.
25. Mae gan yr athrawon berthynas dda iawn gyda'u disgyblion. Caiff y mwyafrif llethol o'r gwersi eu cynllunio'n dda iawn gydag amcanion dysgu clir sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae dealltwriaeth y disgyblion o'u gwaith a'u gallu i ymestyn eu cyfraniadau llafar ac ysgrifenedig yn cael eu datblygu'n dda drwy holi da a phwrpasol. At ei gilydd, mae'r tasgau a osodir yn cael eu gwahaniaethu'n dda sy'n galluogi disgyblion ar draws yr ystod gallu i'w cyflawni'n llwyddiannus.
26. Defnyddia'r athrawon ystod dda o dechnegau i ymestyn medrau dwyieithog y disgyblion. Mae'r dull trwytho a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn CA1 yn effeithiol. Yn CA2, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer meithrin llythrennedd deuol y disgyblion; ar adegau, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio a'r tasgau ieithyddol a osodir i rai disgyblion yn cydweddu â'u medrau yn y Gymraeg.
27. Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn dda. Gwneir defnydd priodol o ddulliau addysgu ac adnoddau sy'n sicrhau bod cyfle cyfartal ar gael i bawb.
28. Mae gan yr ysgol gyfundrefn bwrpasol o asesu cynnydd a chyflawniad y disgyblion ac, at ei gilydd, defnyddia'r athrawon y wybodaeth yn dda i wella'r dysgu a'r addysgu. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Yn yr arfer gorau ceir sylwadau pwrpasol ar lyfrau'r disgyblion sy'n eu cymell i wella eu gwaith ond nid yw'n arfer sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y dosbarthiadau. Mae'r portffolios pynciol sy'n cael eu datblygu, yn cyfrannu'n dda at y broses asesu.
29. Mae'r dull o gofnodi a chyflwyno adroddiadau yn cyd-fynd â'r gofynion statudol. Rhoddir crynodeb da o gyflawniadau'r disgyblion yn yr adroddiadau blynyddol i rieni er ni roddir digon o arweiniad ynglŷn â'r camau nesaf yn y dysgu.
30. Mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yn dda iawn. Mae polisiâu a chynlluniau gwaith o ansawdd da i bob pwnc yn y tymor hir, canolig, a byr yn sicrhau cydbwysedd, hyblygrwydd a dilyniant ar draws y cwricwlwm.
31. Mae'r cwricwlwm Cymreig yn cael lle amlwg yn y profiadau a gynigir i ddisgyblion. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda hefyd o arferion byw, credoau a diwylliannau pobl eraill yn arbennig drwy gysylltiadau'r ysgol â Lesotho.
32. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb am yr amgylchedd.
33. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda drwy'r amrywiaeth o brofiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion yn y gwersi,

yn y cyfnodau cydaddoli a bywyd cyffredinol yr ysgol. Yn y cyfnodau cydaddoli, cynigir cyfleoedd da iawn ar gyfer myfyrio tawel a dathlu cyflawniadau disgyblion gan roi i'r disgyblion brofiadau gwerthfawr a chyfoethog.

34. Mae'r gweithdrefnau i sicrhau gofal, iechyd a diogelwch a lles disgyblion yn agweddau rhagorol ar waith yr ysgol. Mae gan yr ysgol bolisiâu ar gyfer iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant ac fe'u gweithredir yn effeithiol. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd. Mae amgylchedd yr ysgol yn un hapus a diogel, ble y caiff pob un ei ysgogi a'i herio i gyflawni ei lawn botensial.
35. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac mae'n bodloni gofynion y Cod Ymarfer. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cael ei gweithredu'n effeithiol.
36. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni yn dda iawn. Cyfranna'r rhieni'n dda mewn amrywiaeth o ffyrdd i fywyd a gwaith yr ysgol. Darperir amrywiaeth o wybodaeth ar eu cyfer ond mae nifer o rieni yn dymuno cael mwy o wybodaeth am yr hyn a addysgir. Mae'r partneriaethau gyda'r gymuned ac ysgolion eraill yn effeithiol. Mae strwythur priodol i ddatblygu ymhellach gysylltiadau gyda busnes a diwydiant.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

37. Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad da iawn i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir ynglŷn â chyfeiriad yr ysgol i'r dyfodol a'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliannau pellach. Mae'n derbyn cefnogaeth lawn y dirprwy bennaeth yn yr ymgyrch i wireddu nodau ac amcanion yr ysgol.
38. Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd cadarn sydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae cyfraniad pob aelod o staff yr ysgol yn cael ei werthfawrogi ac mae awyrgylch o gydweithio ac ymddiriedaeth yn nodweddu bywyd yr ysgol.
39. Mae gosod targedau wedi'i ddatblygu'n dda yn yr ysgol. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod anghenion hyfforddi staff a hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol.
40. Sefydlwyd diwylliant clir o huanarfarnu yn yr ysgol. Caiff y cydlynwyr gyfle i gael trosolwg o waith disgyblion ar draws yr ysgol ac adrodd yn ôl i'w cydweithwyr. Hyd yma, ni luniwyd rhaglen hunanarfarnu ffurfiol dros gyfnod o amser sy'n nodi'r agweddau a'r pynciau sydd i gael sylw ynghyd ag amserlen arsylwi yn y dosbarthiadau.
41. Mae'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn arf gwerthfawr yn strategaeth rheoli'r ysgol. Mae'n gosod nodau a thargedau realistig sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol.
42. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf. Aethpwyd i'r afael yn dda â'r materion allweddol ac o ganlyniad, mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion.
43. Mae'r corff llywodraethol yn weithgar ac yn gefnogol iawn i holl waith a datblygiad yr ysgol. Mae'r aelodau yn ymwelwyr cyson â'r ysgol a chyfrannant yn uniongyrchol tuag at gynllunio strategol yr ysgol drwy'r gwahanol is baneli a chyfarfodydd llawn y corff llywodraethu. Maent wedi dechrau monitro ansawdd y ddarpariaeth ond nid yw eu cyfraniad i'r broses hunanarfarnu ar hyn o bryd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

44. Mae gan ysgol ddigon o staff sydd â'r cymwysterau priodol ar gyfer ei hanghenion. Defnyddir y staff yn effeithiol ac mae'r trefniant o gyfnewid staff i gyflwyno agweddau o'r cwricwlwm i wahanol ddosbarthiadau yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau.
45. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau ar gyfer pob ystod oedran ac, yn gyffredinol, ar gyfer pob pwnc. Cânt eu defnyddio'n effeithiol ac, at ei gilydd, maent mewn cyflwr da. Ers yr arolwg diwethaf, ychwanegwyd at adeiladau'r ysgol sydd wedi sicrhau llyfrgell ganolog i'r ysgol. Mae'r prif adeilad a thir yr ysgol mewn cyflwr da ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n lân a thaclus. Fodd bynnag, mae cyflwr y ddau ddosbarth symudol yn wael ac mae cynlluniau i gael dosbarthiadau parhaol yn eu lle yn y dyfodol agos. Nid oes man chwarae wedi cael ei neilltuo i blant dan bump. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol, y gymuned, ymweliadau ac ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion.

Argymhellion

46. Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:
1. barhau gyda'u hymdrechion i godi safonau cyflawniad disgyblion yn y Gymraeg yn CA2 ac i ddatblygu ymhellach eu medrau dwyieithog;
 2. ddatblygu ymhellach system asesu'r ysgol drwy gynnwys y disgyblion yn y broses o asesu eu cynnydd a hybu eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella;
 3. ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir i'r rhieni ynglŷn â chyflawniad disgyblion a'r hyn a addysgir;
 4. gryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy :
 - lunio rhaglen benodol dros gyfnod o amser sy'n nodi'r agweddau a'r pynciau sydd i gael sylw ynghyd ag amserlen arsylwi yn y dosbarthiadau,
 - ddatblygu ymhellach rôl y corff llywodraethol yn y broses;
 5. drwy gydweithio gyda'r AALI, wireddu, mor fuan â phosibl, y cynlluniau i gael adeiladau pwrpasol yn lle'r dosbarthiadau symudol ac i ddarparu man chwarae pwrpasol i blant dan bump.
47. Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

48. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
49. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da iawn tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
50. Yn ystod yr arolygiad, roedd safonau cyflawniad cyffredinol y disgyblion yn y gwersi yr arsylwyd arnynt fel a ganlyn :

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Safonau cyflawniad disgyblion	17%	63%	20%	0%	0%

51. Yng nghyfnod allweddol 1 a 2, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 2
Addysg grefyddol	Gradd 1	Gradd 2

52. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da ac, yn gyffredinol, cyflawnant y targedau a osodir iddynt.
53. Mae plant dan bump yn gwneud cynnydd da ym mhob un o'r medrau allweddol
54. Yn CA1 a CA2, cyflawna'r disgyblion safonau da yn y medrau siarad a gwranddo yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae safonau ym medrau darllen ac ysgrifennu'n dda yn CA1; maent yn dda yn Saesneg yn CA2 ac yn radd tri yn y Gymraeg. Gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm; gwnânt ddefnydd cynyddol o dechnoleg gwybodaeth mewn gwahanol bynciau a chyrrhaeddant safonau gradd tri. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolwg diwethaf yn arbennig datblygiad sgiliau llafar y disgyblion. Nid yw sgiliau darllen ac ysgrifennu y disgyblion yn y Gymraeg mor gadarn â'u sgiliau yn Saesneg ac, at ei gilydd, gradd tri yw'r safonau. Mae rhai enghreifftiau da o godi gwybodaeth mewn un iaith a'i throsglwyddo i'r iaith arall, megis mewn hanes. Mae dwyieithrwydd yn cael ei wau'n llwyddiannus i fywyd cyffredinol yr ysgol.
55. Mae medrau creadigol a phersonol a chymdeithasol y disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae gan y disgyblion fedrau da mewn datrys problemau.

56. Yn 2004, ar ddiwedd CA1, roedd perfformiad y disgyblion yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn ôl asesiad athrawon, ychydig yn uwch nag ysgolion cyffelyb ledled Cymru ac yn uwch na'r canlyniadau sirol a'r clwstwr teuluol o ysgolion. Roedd perfformiad y bechgyn ychydig yn well na'r merched.
57. Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2004, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd ofynion dangosydd pynciau craidd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol am 2003. O gymharu'r canlyniadau â'r rheiny mewn ysgolion cyffelyb yng Nghymru, roedd y canlyniadau yn uwch na'r canolrif mewn Saesneg, ychydig yn is na'r canolrif mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac ychydig yn is na'r chwarter isaf yn y Gymraeg. Roedd y canlyniadau yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chanlyniadau'r sir a'r clwstwr teuluol o ysgolion a'r canlyniadau yn y Gymraeg yn is. Mae perfformiad y merched yn sylweddol well na'r bechgyn, yn arbennig yn y Gymraeg. Mae gwella perfformiadau'r bechgyn yn un o'r blaenoriaethau yn y CDY cyfredol.
58. Mae agweddau disgyblion at ddysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn nodweddion rhagorol. Gweithia'r disgyblion yn ddiwyd yn y gwersi, maent yn awyddus i drafod eu gwaith gydag athrawon ac ymwelwyr a dangosant frwdfrydedd tuag at eu gwaith.
59. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ar bob achlysur. Datblyga'r disgyblion hynaf yn unigolion aeddfed a chyfrifol. Nodweddion arbennig yw'r parch a ddangosant tuag at eraill a'r croeso a'r cyfeillgarwch a ddangosant tuag at y rhai sy'n newydd i'r ysgol.
60. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd. Maent yn gweithio mewn dull trefnus ac yn datblygu sgiliau dysgu annibynnol pwrpasol. Mae disgyblion hyn yr ysgol yn sgwrsio ac yn trafod yn aeddfed ac yn ddeallus.
61. Yn gyffredinol, nid oes gan y disgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni safonau uwch. Nid yw'r disgyblion yn CA2 yn hunanarfarnu eu gwaith gan nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.
62. Cyfartaledd presenoldeb dros y tri thymor llawn diwethaf oedd 94.5%, sydd yn cyfateb yn fras â'r canran adeg yr arolwg diwethaf. Mae cyfraddau presenoldeb plant oedran derbyn yn adlewyrchiad teg o lefelau presenoldeb gweddill yr ysgol. Eithriad yw unrhyw amrhydlondeb. Diwellir gofynion cofnodi a gweinyddu cylchlythyr LICC.
63. Drwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion cyfle cyfartal yn datblygu'n dda iawn. Maent yn parchu amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol o fewn cymdeithas. Gwerthfawrogant bwysigrwydd y gymuned ym mywyd yr ysgol ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn diogelu a gwarchod yr amgylchedd.
64. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o fyd gwaith a'r gweithle. Sefydlwyd rhai cysylltiadau ac ymweliadau buddiol sy'n cynnwys unigolion yn trafod eu gwaith gyda'r disgyblion. Sefydlwyd cysylltiadau priodol ag asiantaethau perthnasol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

65. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu'n cytuno â'r farn gradd 3 a wnaed gan yr ysgol yn yr adroddiad huanarfarnu.
66. Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
30%	53%	17%	0%	0%

67. Mae ansawdd y berthynas yn y dosbarthiadau yn dda iawn. Mae'r athrawon yn defnyddio gwahanol strategaethau i gymell a herio'r disgyblion i sicrhau eu bod yn rhoi o'u gorau. Defnyddiant hefyd amrywiaeth o adnoddau i hybu 'sgiliau meddwl' y disgyblion.
68. Caiff y mwyafrif llethol o'r gwersi eu cynllunio'n dda iawn gydag amcanion dysgu clir sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae dealltwriaeth y disgyblion o'u gwaith a'u gallu i ymestyn eu cyfraniadau llafar ac ysgrifenedig yn cael eu datblygu'n dda drwy holi da a phwrpasol.
69. At ei gilydd, mae'r tasgau a osodir yn cael eu gwahaniaethu'n dda sy'n galluogi disgyblion ar draws yr ystod gallu i'w cyflawni'n llwyddiannus.
70. Defnyddia'r athrawon ystod dda o dechnegau i ymestyn medrau dwyieithog y disgyblion. Mae'r dulliau trwytho a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn CA1 yn effeithiol. Yn CA2, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer meithrin sgiliau llythrennedd deuol y disgyblion; ar adegau, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio a'r tasgau ieithyddol a osodir i rai disgyblion yn cydweddu â'u medrau yn y Gymraeg.
71. Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn dda. Gwneir defnydd priodol o ddulliau addysgu ac adnoddau sy'n sicrhau bod cyfle cyfartal ar gael i bawb.
72. Mae'r disgyblion yn cael eu grwpio yn ôl eu gallu i haen uchaf, canol ac isaf sy'n hwyluso'r broses o fonitro ac adolygu cynnydd. Mae portffolios unigol disgyblion yn cynnwys enghreifftiau o waith yn y pynciau craidd ac yn gofnod gwerthfawr o'u datblygiad cyffredinol. Mae cyfundrefn bwrpasol yn yr ysgol i asesu'r pynciau craidd a sylfaen ac, at ei gilydd, mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i wella'r dysgu a'r addysgu.
73. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac yn gydwobodol. Yn yr arfer gorau, ceir sylwadau pwrpasol ar lyfrau'r disgyblion sy'n eu cymell i wella eu gwaith ond nid yw'n arfer sy'n cael ei ddefnyddio'n ddigon cyson ar draws y dosbarthiadau. Yn gyffredinol, ni wneir y dysgwyr yn ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses cynllunio a gwella cynnydd.
74. Dechreuwyd ar y gwaith o grynhoi enghreifftiau o waith disgyblion wedi'i lefelu mewn portffolios pynciol. Mae hyn yn hwyluso'r dasg o asesu yn unol â disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol.

75. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac asesu disgyblion ag AAA yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Mae'r gofrestr anghenion arbennig yn cynnwys cofnodion manwl o gynnydd a chyflawniad y disgyblion.
76. Mae'r dull o gofnodi a chyflwyno adroddiadau yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Rhoddir crynodeb da o gyflawniadau'r disgyblion yn adroddiadau blynyddol i rieni er ni roddir digon o arweiniad ynglŷn â'r camau nesaf yn y dysgu.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

77. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
78. Caiff y disgyblion fynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynlluniau gwaith manwl a chynhwysfawr yn sicrhau bod y disgyblion yn cael profiadau amrywiol a diddorol. Mae'r cynlluniau yn cael eu gweithredu yn effeithiol ym mhob un o'r pynciau. Mae nodau ac amcanion eglur i'r addysgu a'r dysgu.
79. Cyfoethogir profiadau'r disgyblion drwy ystod o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chwaraeon sy'n cynnwys clybiau megis clybiau gwyddoniaeth, pêl droed a phêl rwyd a chyfarfodydd yr Urdd.
80. Mae gan yr ysgol ddulliau ymarferol o ddiwallu anghenion unigol dysgwyr. Mae'r cymorth a roddir gan gynorthwywyr i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol ac anghenion arbennig yn y dosbarth yn dda. Mae'r gwaith cartref a'r gwaith darllen perthnasol a osodir yn rheolaidd yn cefnogi'r dysgu yn dda.
81. Mae'r ysgol yn rhoi sylw penodol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ers mis Medi, y Gymraeg yw'r cyfrwng addysgu yn y derbyn ac am y ddau dymor cyntaf yn B1; wedi hynny, defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mae'r trefniant hwn eisoes yn cael effaith cadarnhaol ar hyrwyddo sgiliau dwyieithog y disgyblion, yn arbennig yn CA1. Yn CA2, caiff sgiliau llafar y disgyblion eu datblygu'n dda ond nid yw eu sgiliau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg cystal â'u sgiliau yn Saesneg.
82. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda drwy'r amrywiaeth o brofiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion o fewn gwersi, y cyfnodau cydaddoli a bywyd cyffredinol yr ysgol. Yn y cydaddoli, cynigir cyfleoedd da iawn ar gyfer myfyrio tawel a dathlu cyflawniadau disgyblion gan roi i'r disgyblion brofiadau gwerthfawr a chyfoethog.
83. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn treiddio trwy waith yr ysgol; mae'r disgyblion yn astudio gwaith artistiaid a cherddorion Cymreig ac maent yn ymchwilio i ddaearyddiaeth a hanes Cymru. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â Lesotho sy'n gymorth i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth byd eang.
84. Mae gweithredu mewn ffordd gynaliadwy yn cael ei feithrin yn dda yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn anelu at gael y faner werdd fel Ysgol Eco. Mae'r disgyblion yn

ymwybodol o'r angen i ail gylchu papur a sbwriel ac mae biniau i'r perwyl yma o amgylch yr ysgol. Crëwyd gardd ar dir yr ysgol gyda chymorth rhieni lle rhoddir cyfleoedd i blant edrych ar ôl planhigion a bywyd gwylt. Cafwyd nawdd hefyd gan "Menter Môn" i dyfu coed ar dir yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion synnwyr clir o berchnogaeth a chyfrifoldeb tuag at ei gilydd a'u hamgylchedd.

85. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda iawn. Mae gan y rhieni werthfawrogiad clir o waith ac ymdrechion llwyddiannus yr ysgol. Mae nifer dda yn cyfrannu yn uniongyrchol at waith yr ysgol, yn y dosbarthiadau, clybiau fin nos, neu drwy weithgareddau eraill. Mae Cymdeithas y Rhieni yn gorff brwdfrydig, cynhaliol a llewyrchus, ac yn cyfrannu yn dda iawn at fywyd yr ysgol. Mae'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer y rhieni, yn cynnwys calendr tymhorol, llythyrau, adroddiadau a hefyd y cyfarfodydd ffurfiol a drefnir, o safon uchel. Serch hynny, mae nifer o rieni yn awyddus i dderbyn mwy o wybodaeth am yr hyn a addysgir ac arweiniad ar y camau dysgu nesaf i'w plant. Mae'r cytundeb cartref /ysgol, yn ddogfen addas, ac wedi ei dosbarthu a'i llofnodi gan yr holl rieni.
86. Mae'r ysgol yn hynod bwysig i'r pentref a'r ardal, ac mae'r cysylltiadau yn gryf a chynhaliol, gyda gwerthfawrogiad clir gan y gymuned am ei gwaith. Mae aelodau o'r gymuned a sefydliadau yn ymateb yn dda iawn i achlysuron a dathliadau yn yr ysgol. Mae cysylltiadau da â cholegau a hefyd yr ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd. Mae darpar athrawon a hefyd myfyrwyr mewn meysydd eraill yn cael profiadau gwerthfawr yn yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion B6 i'r sector uwchradd hefyd yn dda.
87. Nid oes gan yr ysgol bolisi ar ddarparu addysg gysylltiedig â gwaith, ond mae strwythur perthnasol i ddatblygu ymhellach y cysylltiadau gyda diwydiant megis cysylltiadau gyda 'Gyrfa Cymru'. Mae cysylltiadau agos wedi eu gwneud â busnesau lleol megis cwmni adeiladu lleol.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?

Gradd 1 : Da gyda nodweddion eithriadol
--

88. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â'r farn gradd 2 a wnaed gan yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
89. Mae'r gweithdrefnau i sicrhau gofal, iechyd a diogelwch a lles disgyblion yn agweddau rhagorol ar waith yr ysgol.
90. Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r sir i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch y disgyblion yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff gopi o'r polisi ac mae sylwadau hunanarfarnu yn eu lle yn y ddogfennaeth.
91. Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech arbennig drwy wahanol brosiectau i hybu iechyd a lles y disgyblion. Mae'n hybu datblygiad iachus drwy'r "Prosiect Ysgolion Iach". Mae nyrs yr ysgol yn cyfrannu'n bwrpasol i raglen addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion.
92. Mae'r cofrestrau'n cael eu marcio a'u gweinyddu'n briodol, ac mae presenoldeb yn cael ei fonitro'n dda. Mae prydlondeb yn dda.

93. Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar amddiffyn plant sy'n cael ei weithredu'n effeithiol. Mae'r pennaeth yn mynychu cyrsiau sy'n ymwneud â materion perthnasol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf a hyfforddiant mewn materion yn ymwneud â gweithdrefnau amddiffyn plant.
94. Mae'r cynlluniau gwaith ar bob lefel, gan gynnwys y rhaglen ABCCh, yn gynhwysfawr. Mae'r cydlynnydd ABCCh wedi sicrhau dilyniant a chydbwysedd ar draws yr ysgol trwy greu taflen gofnodi ar gyfer pob blwyddyn. Cyflwynir Amser Cylch pwrpasol yn wythnosol ym mhob dosbarth. Oddi ar fis Medi 2004, mae cyfres o themâu wedi cael ei chynllunio ar gyfer gwasanaethau boreol ac mae'r rhain yn cael sylw pellach ym mhob dosbarth yn ystod Amser Cylch. Nid oes cyngor ysgol wedi ei sefydlu eto.
95. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda. Mae'r polisi AAA yn amlinellu system effeithiol o adnabod disgyblion ac anghenion arbennig yn gynnar. Mae ffeil gynhwysfawr ar drefniadaeth AAA a chydlynir y gwaith yn effeithiol gan y pennaeth. Sicrheir bod y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.
96. Mae uned AAA wedi ei lleoli o fewn yr ysgol sydd yn derbyn disgyblion o ysgolion eraill am y boreau. Mae'r athrawes sydd yn gyfrifol am yr uned, yn gweithio'n agos gyda staff yr ysgol i sicrhau cynhaliaeth barhaus i'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol o fewn yr ysgol. Mae'r rhieni yn gweithio'n glòs gyda'r athrawon i fodloni anghenion a monitro cynnydd eu plentyn. Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn ofalus gan yr athrawon, a bydd disgyblion yn cael cymorth ychwanegol yn ôl eu hanghenion.
97. Mae'r ysgol yn sicrhau amgylchedd diogel a hapus, ble y caiff pob disgybl ei ysgogi a'i herio i gyflawni ei lawn botensial. Mae'r disgyblion yn gwrtais a moesgar, yn barod i gydweithio a chydrannu ac yn dangos balchder yn llwyddiannau ei gilydd.
98. Mae gan yr ysgol bolisiâu a gweithdrefnau cadarn iawn i ddelio ag unrhyw achosion o ymddygiad ymosodol, gormesol neu fwlian. Mae polisiâu clir a gweithdrefnau pendant mewn perthynas â hiliaeth. Mae'r ysgol yn hybu gwerth pob unigolyn yn ôl ei ddiwylliant a'i gefndir.

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

99. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
100. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad da iawn i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir ynglŷn â chyfeiriad yr ysgol i'r dyfodol a'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliannau pellach. Mae'n derbyn cefnogaeth lawn y dirprwy bennaeth yn yr ymgyrch i wireddu nodau ac amcanion yr ysgol.
101. Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd cadarn sydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae cyfraniad pob aelod o staff yr ysgol yn

cael ei werthfawrogi ac mae awyrgylch o gydweithio ac ymddiriedaeth yn nodweddu bywyd yr ysgol.

102. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, mentrau newydd a phartneriaethau lleol. Mae cyfraniad y disgyblion, staff a llywodraethwyr i fentrau megis ysgol werdd a bwyta'n iach yn cyfrannu'n uniongyrchol at ansawdd bywyd ac amgylchedd yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd yn y clwstwr, yr ysgol uwchradd a'r ddwy ysgol feithrin sy'n ei bwydo.
103. Mae gosod targedau wedi'i ddatblygu'n dda yn yr ysgol. Mae'r cydlynwyr wedi dechrau ar y gwaith o fonitro pynciau a pharatoi adroddiadau ar y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.
104. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn arf gwerthfawr yn strategaeth rheoli'r ysgol. Mae'n gosod nodau a thargedau realistig sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol.
105. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod anghenion hyfforddi staff a hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol. Mynycha'r staff gyrsiau sy'n ymestyn eu sgiliau a'u gwybodaeth sy'n cyfrannu tuag at godi safonau'n gyffredinol ar draws yr ysgol.
106. Mae'r corff llywodraethol yn weithgar ac yn gefnogol iawn i holl waith a datblygiad yr ysgol. Mae'r aelodau yn ymwelwyr cyson â'r ysgol a chyfrannant yn uniongyrchol tuag at gynllunio strategol yr ysgol drwy'r gwahanol is baneli a chyfarfodydd llawn y corff llywodraethu. Maent wedi dechrau monitro ansawdd y ddarpariaeth ond nid yw eu cyfraniad i'r broses hunanarfarnu ar hyn o bryd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
107. Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn ac mae'n cyflawni ei holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

108. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
109. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr wedi ymrwymo i godi safonau ac i wella ansawdd y ddarpariaeth addysgol.
110. Sefydlwyd diwylliant clir o huanarfarnu yn yr ysgol. Caiff y cydlynwyr gyfle i gael trosolwg o waith disgyblion ar draws yr ysgol ac adrodd yn ôl i'w cydweithwyr. Hyd yma, ni luniwyd rhaglen hunanarfarnu ffurfiol dros gyfnod o amser sy'n nodi'r agweddau a'r pynciau sydd i gael sylw ynghyd ag amserlen arsylwi yn y dosbarthiadau.
111. Mae'r pennaeth yn arfarnu ansawdd yr addysgu'n effeithiol. Mae'n defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynllunio ar gyfer gwelliannau pellach. Ar hyn o bryd, nid oes dull ffurfiol o gasglu safbwyntiau disgyblion a rhieni.
112. Mae ansawdd y CDY yn dda. Mae'n cynnwys yr holl gamau pwrpasol ar gyfer cynllunio i'r dyfodol ac mae'r blaenoriaethau'n cael eu costio'n ofalus a'u cefnogi drwy sicrhau adnoddau digonol.

113. Mae'r ysgol yn gwneud dadansoddiad manwl o ganlyniadau profion disgyblion, gan gynnwys canlyniadau gwaelodlin yn y Blynyddoedd Cynnar, asesiadau athrawon a phrofion Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2. Gwneir defnydd effeithiol hefyd o ddata cymharol lleol, sirol a chenedlaethol, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau ym mherfformiad bechgyn a merched. Defnyddir y dystiolaeth yn dda i wella addysgu a dysgu.
114. Mae'r adroddiad hunanarfarnu a luniwyd gan yr ysgol o ansawdd da. Mae'n gryno ac yn glir ac yn nodi cryfderau a meysydd lle mae angen gwelliannau.
115. At ei gilydd, roedd y tîm arolygu yn cytuno â dadansoddiad yr ysgol o'i chryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella yn ei hunanarfarniad. Cytunodd y tîm arolygu â barnau'r ysgol mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol.
116. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf. Aethpwyd i'r afael yn dda â'r materion allweddol ac o ganlyniad, mae wedi cael effaith cadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion ar draws yr ysgol.

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

117. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
118. Mae gan ysgol ddigon o staff sydd â'r cymwysterau priodol ar gyfer ei hanghenion. Defnyddir y staff yn effeithiol ac mae'r trefniant o gyfnewid staff i gyflwyno agweddau o'r cwricwlwm i wahanol ddsbarthiadau yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau.
119. Mae'r holl staff ar draws yr ysgol yn cydweithio'n dda iawn. Mae'r cynorthwywyr yn rhoi cymorth gwerthfawr a chânt eu defnyddio'n effeithiol yn y dosbarthiadau.
120. Mae'r ysgrifenyddes a holl staff cefnogi'r ysgol yn cyflawni eu gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.
121. Mae gan yr ysgol raglen hyfforddiant mewn swydd a gweithdrefnau datblygiad proffesiynol staff sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r rhaglen wedi cyfrannu tuag at ddatblygu cynlluniau gwaith o safon uchel.
122. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau ar gyfer pob ystod oedran ac, yn gyffredinol, ar gyfer pob pwnc. Cânt eu defnyddio'n effeithiol ac, at ei gilydd, maent mewn cyflwr da. Mae'r buddsoddiad sylweddol diweddar mewn offer ac adnoddau ar gyfer TGCh eisoes yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau yn y maes hwn.
123. Ers yr arolwg diwethaf, ychwanegwyd at adeiladau'r ysgol sy'n cynnwys llyfrgell ganolog lle ceir casgliad da o lyfrau cyfair a ffuglen. Mae'r prif adeilad a thir yr ysgol mewn cyflwr da ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n lân a thaclus. Fodd bynnag, mae cyflwr y ddau ddsbarth symudol yn wael ac mae cynlluniau i gael dosbarthiadau parhaol yn eu lle yn y dyfodol agos. Nid oes man chwarae wedi cael ei neilltuo i blant dan bump. Mae'r defnydd dychmygus o arddangosiadau gwaith y disgyblion, yn arbennig mewn celf, yn ogystal â deunyddiau dysgu eraill yn creu amgylchedd dysgu ysgogol.

124. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol, y gymuned a safleoedd addysgol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Yn ychwanegol, mae cyfraniadau ymwelwyr â'r ysgol o bell, megis Lesotho, ac agos yn rhoi profiadau byw ac unigryw i'r disgyblion o fywyd a gwaith pobl o gefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig ac ieithyddol gwahanol.
125. Mae cyswllt da iawn rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu ac yn arfarnu anghenion a'r defnydd o adnoddau yn rheolaidd. Mae'r rheolaeth ariannol yn dda ac mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Cymraeg

CA1 Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

CA2 Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
--

Nodweddion da

126. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ar yr athrawon a'u cyd-ddisgyblion. Ymestynnant eu dysgu drwy ymateb i amrywiaeth o gwestiynau a sbardunau.
127. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r safonau'n dda mewn siarad, darllen ac ysgrifennu. Yn CA2, mae safonau llafar wedi gwella ers yr arolwg dwiethaf ac maent yn awr yn dda; erys y safonau mewn darllen ac ysgrifennu'n foddhaol.
128. Ymetyb disgyblion CA1 yn frwd i stori a ddarllenir iddynt a medr nifer dda ohonynt gynnig ymatebion estynedig. Daw disgyblion CA2 yn gynyddol yn fwy hyderus i sgwrsio a thrafod yn y Gymraeg a'i defnyddio mewn amrwyaeth o gyd-destuau. Trafodant yn dda faterion sydd yn gyfarwydd iddynt.
129. Hyrwyddir sgiliau llafar y disgyblion ymhellach drwy'r cyfleoedd a gânt i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus megis mewn gwasanaethau a chyngherddau.
130. Mae sgiliau darllen disgyblion CA1 yn datblygu'n dda. Medrant gyfeirio at nodweddion llyfr megis y clawr a'r awdur. Darllenant yn gywir eiriau sydd yn gyfarwydd iddynt ac mae'r goreuon yn darllen yn ystyrion gyda goslef dda. Mae'r goreuon yn CA2 yn datblygu fel darllenwyr hyderus. Trafodant gymeriadau a digwyddiadau mewn llyfrau yn aeddfed ac yn rhugl. Defnyddiant eu gwybodaeth o'r wyddor i ddatblygu eu sgiliau chwilio mewn geiriaduron a llyfrau cyfair.
131. Yn CA1, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu. Dysgant sut i ffurfio llythrennau, rhoi bwloch rhwng geiriau ac ysgrifennu brawddegau syml. Mae disgyblion CA2 yn ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau ac mewn ymateb i wahanol symbyliadau. Ymatebant yn dda i wahanol destunau llenyddol ac mae'r goreuon yn ysgrifennu'n gywir ac yn estynedig.

Diffygion

132. Annatblygedig yw sgiliau darllen nifer o ddisgyblion yn CA2 yn arbennig i ymdrin â deunydd a thestunau anghyfarwydd. Mae hyn yn amharu ar allu'r disgyblion i chwilio am wybodaeth o wahanol ffynonellau.
133. Mae diffygion o ran strwythur brawddegau, cywirdeb a mynegiant yng ngwaith ysgrifenedig lleiafrif arwyddocaol o ddisgyblion yn CA2.

Mathemateg

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig yn CA1 a CA2
--

Nodweddion da

134. Mae'r disgyblion mwy galluog ar frig CA1 yn defnyddio iaith fathemategol addas ac yn rhoi cynnig ar wahanol dulliau i ddatrys anawsterau. Maent yn gallu canfod patrymau ac adnabod odrifau ac eilrifau.
135. Mae'r disgyblion mwy galluog ar ddiwedd CA1, yn gallu dosbarthu siapau dau a thri dimensiwn drwy ddefnyddio priodweddau megis cymesuredd adlewyrchiad. Defnyddiant fesurau safonol ac ansafonol ar gyfer hyd, cynhwysedd, mas ac amser. Mae'r plant llai galluog ar ddiwedd CA1 yn trafod eu gwaith yn syml, ac yn cynrychioli eu gwaith drwy ddefnyddio gwrthrychau neu luniau. Maent yn gallu adio, tynnu, cyfrif a threfnu rhifau hyd at 20.
136. Gall disgyblion ar waelod CA2 ddewis eu strategaethau eu hunain i gyfrifo, megis adio naw i rifau gwahanol. Mae nifer o ddisgyblion yn defnyddio dulliau rhifyddeg pen yn effeithiol.
137. Gall disgyblion B4 amcangyfrif hyd gwrthrychau yn y dosbarth yn synhwyrol ac yn gywir, gan ddefnyddio mesurau safonol ac ansafonol.
138. Gall disgyblion B4 a B5 adalw cysyniadau mathemategol a ddysgwyd yn y gwersi blaenorol yn dda. Mae disgyblion mwyaf galluog B5 yn medru creu tabl amser eu hunain ac adnabod y cywerthedd rhwng amserau ar gloc 12 awr a 24 awr.
139. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B6 yn medru esbonio dulliau o edrych ar linellau cymesur gan ymateb yn gywir i gwestiynau yn ymwneud â threfn cylchdro. Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau rhifyddeg pen.
140. Defnyddia disgyblion CA1 a CA2 raglenni cyfrifiadurol yn dda i fireinio eu sgiliau rhif ac i atgyfnerthu cysyniadau. At ei gilydd, cyflwynant eu gwaith yn drefnus a destlus.

Diffygion

141. At ei gilydd, nid yw medrau disgyblion CA2 i gasglu, cynrychioli a dehongli data wed'u datblygu'n ddigonol.

Hanes

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig yn CA1 a CA2

Nodweddion da

142. Yn CA1, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o gronoleg. Drwy edrych ar luniau o'r gorffennol a thrin a thrafod gwahanol arteffactau, deuant yn ymwybodol o'r newidiadau sydd wedi digwydd ym mywyd pobl dros gyfnod o amser.
143. Trafodant yn ddeallus sut y defnyddiwyd gwahanol offer yn y gorffennol a'u cymharu â'r math o offer a ddefnyddir heddiw. Cofnodant eu gwaith yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd.
144. Datblyga disgyblion B4 ddealltwriaeth dda o drefn amser drwy gyfeirio at linell amser yn y dosbarth sy'n cofnodi digwyddiadau sy'n berthnasol i'w hymholiad. Gwnânt ddefnydd da o'u hymweliad ag amgueddfa yn Llanberis a ffynonellau gwybodaeth eraill i ymchwilio am wybodaeth. Cofnodant eu canfyddiadau yn briodol mewn gwahanol ffyrdd.
145. Mae gan ddisgyblion B4 a B5 wybodaeth dda am y gymdeithas Geltaidd. Maent yn cymharu'n fedrus dulliau ffermio heddiw ag arferion oes y Celtiaid. Gwnânt ddefnydd da o TGCh i ymestyn eu gwybodaeth.
146. Mae sgiliau ymholi hanesyddol disgyblion B6 yn datblygu'n dda. Defnyddiant ystod eang o ffynonellau i ddod o hyd i dystiolaeth sydd yn eu cynorthwyo i ofyn ac ateb cwestiynau am y gorffennol. Caiff eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal leol a hanes Cymru eu datblygu'n dda drwy eu hastudiaethau, ymweliadau, a'r gwahanol ymwelwyr a ddaw i'r ysgol i rannu eu profiadau gyda'r disgyblion ac i ateb eu cwestiynau.

Celf

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol yn CA1 a CA2

Nodweddion da

147. Mae disgyblion CA1 a CA2 yn manteisio'n dda ar gyfleoedd i ddefnyddio amrediad o ddeunyddiau ac offer o fewn gwersi celf.
148. Mae'r disgyblion yn defnyddio technegau a ddysgir mewn gwersi celf i ddyfnhau eu profiadau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft, manteisir ar gyfleoedd i gyfuno gwahanol themâu amgylcheddol gyda'r gwaith mewn celf drwy greu "Collage" i'w arddangos yn y neuadd.
149. Yn CA1, mae'r disgyblion yn archwilio i nodweddion gweledol megis llinell, lliw, patrwm a siâp yn effeithiol. Mae disgyblion B1 yn arsylwi'n fanwl a chofnodi'n gywir, gan ddefnyddio siâp a lliw penodol. Maent yn disgrifio'r hyn y maent yn ei deimlo neu'n ei feddwl wrth drafod eu gwaith yn dda.
150. Yn CA2, mae'r disgyblion yn datblygu sgiliau arsylwi da iawn ac yn dangos ymwybyddiaeth o liw a thôn, ffurf a phatrwm yn eu gwaith.

151. Mae disgyblion B3 yn gwneud defnydd da o raglenni cyfrifiadurol “Fresco” a “Paint” yn eu gwaith ar y Celtiaid. Mae disgyblion B4 ymateb yn dda i’r patrymau a welsant ar eu hymwelaid ag amgueddfa yn Ffestiniog.
152. Mae gan ddisgyblion CA2 ddealltwriaeth dda o waith artistiaid enwog megis Van Gogh , Picasso ac artistiaid Cymraeg megis Kyffin Williams; maent yn efelychu eu technegau’n dda iawn. Mae ansawdd gwaith y disgyblion sy’n seiliedig ar waith “Pointillism” Georges Seurat a gwaith pastiliau Paul Cezanne yn dda iawn.
153. Mae’r disgyblion yn elwa’n fawr o ymweliadau i’r ysgol gan wahanol artistiaid ac hefyd ymweliadau cyson orielau.
154. Mae’r disgyblion yn gallu arfarnu a beirniadu eu gwaith eu hunain yn effeithiol. Maent yn arddangos dealltwriaeth o iaith weledol celf, sef llinell, arlliw, lliw, patrwm, ansawdd, siâp, ffurf a gofod.

Addysg gorfforol

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig yn CA1 a CA2
--

Nodweddion da

155. Mae mwyafrif llethol y disgyblion yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau. Gwnânt ddefnydd da o’r cyfleusterau mewnol ac allanol ar gyfer gwahanol weithgareddau ac maent yn ymwybodol o ofynion diogelwch.
156. Cyflawna disgyblion B1 safonau da wrth newid y rhythm, cyflymdra, lefel a chyfeiriad mewn dawns syml. Datblyga disgyblion B2 reolaeth gynyddol ar eu cyrff wrth deithio mewn gwahanol ffyrdd o gwmpas y neuadd. Gall y goreuon greu a chynnal symudiadau sy’n pwysleisio newidiadau siâp a lefel.
157. Gwrendy disgyblion B3 yn astud ar gyfarwyddiadau er mwyn cwblhau’n llwyddiannus weithgareddau i gynhesu eu cyrff. Mae eu sgiliau pasio a derbyn pêl yn datblygu’n dda.
158. Mae disgyblion B6 yn meithrin sgiliau trin pêl rygbi yn gyflym. Deuant yn gynyddol yn fwy hyderus wrth godi, rhedeg a phasio’r bêl yn gywir.
159. Llwydda disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol i wella eu sgiliau drwy werthuso eu perfformiad eu hunain ac eraill.
160. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn mwynhau’r gweithgareddau. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ymarfer corff i’w hiechyd a’u lles a’r effaith y mae gwahanol ymarferion yn ei gael ar wahanol rannau o’r corff.
161. Mae nifer dda o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau allgyrsiol a chânt lwyddiannau mewn gwahanol gystadlaethau a gynhelir yn yr ardal.

Diffygion

162. Mae lleiafrif o ddisgyblion B2 yn cael anhawster i greu dilyniant mewn siapiau sy’n dangos llif ac ansawdd yn eu gwaith gymnasteg.

Addysg crefyddol

CA1 Gradd 1 : Da gyda nodweddion rhagorol
--

CA2 Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

163. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn datblygu dealltwriaeth dda o ddefodau crefyddol ac arwyddocâd gweddïo. Ysgrifennant weddïau ystyrlon ac maent yn eu darllen yn dda.
164. Yn y ddau gyfnod allweddol, maent yn gyfarwydd â straeon y Beibl ac maent yn gallu eu hail adrodd yn llwyddiannus ar lafar, mewn lluniau ac yn ysgrifenedig. Mae dealltwriaeth dda gan y disgyblion o symbolau pwysig, ac o amrywiaeth o ddathliadau a gwasanaethau.
165. Yn y ddau gyfnod allweddol, ymestynnir dealltwriaeth disgyblion o arwyddocâd addoli a manau addoliad drwy eu hymweliadau â'r capel a'r eglwys leol a thrwy sgwrsio ag arweinwyr crefyddol. Gall disgyblion CA1 drafod eu hymweliad â'r eglwys leol yn fanwl gan gyfeirio at fannau penodol a'r hyn oedd yn digwydd yno.
166. Mae disgyblion CA2 yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gredoau ac arferion Cristnogaeth yn dda. Maent hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'r crefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr, megis pwysigrwydd "Ramadan" ym mywyd y Mwslim.
167. Mae disgyblion CA2 yn casglu gwybodaeth yn effeithiol o wahanol ffynonellau, megis gwefannau a phecynnau addysgol.
168. Mae disgyblion CA2 yn arddangos gwerthoedd, agweddau a theimladau didwyll iawn wrth ystyried materion cyfeillgarwch a theyrngarwch mewn perthynas â gwerthfawrogi ffrindiau a theluoedd fel ffynhonnell o gariad a chymorth. Maent hefyd yn datblygu gwybodaeth a medrau sy'n eu galluogi i ystyried materion sy'n ymwneud â Dinasyddiaeth Fyd-Eang yn synhwyrol.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cydnabod ein bod wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf. Roeddem yn falch fod yr arolygwyr wedi canfod bod agweddau disgyblion tuag at eu dysgu, y diddordeb y maent yn ei ddangos tuag at eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn nodweddion rhagorol yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn gweithio mewn dull trefnus ac yn datblygu sgiliau dysgu annibynnol pwrpasol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn sgwrsio ac yn trafod yn aeddfed ac yn ddeallus. Yn ogystal â dangos brwdfrydedd tuag at eu gwaith gwelwyd bod ein disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ar bob achlysur ac mai un nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r parch a ddangosant tuag at eraill. Braff yw nodi hefyd fod ansawdd yr addysgu wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf a bod canran y gwersi da a da iawn yn sylweddol uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan.

Gwerthfawroga'r llywodraethwyr ganfyddiad yr arolygwyr fod gweithdrefnau i sicrhau gofal, iechyd a diogelwch a lles disgyblion yn agweddau rhagorol ar waith yr ysgol. Yn holl bwysig, mae'r adroddiad yn cadarnhau fod amgylchedd yr ysgol yn un hapus a diogel ble y caiff pob plentyn ei ysgogi a'i herio i gyflawni i'w lawn botensial.

Bydd y staff a'r llywodraethwyr yn mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad mewn cynllun gweithredu. Mae codi safonau cyflawniad disgyblion yn y Gymraeg yn CA2 eisoes wedi ei gynnwys yn y cynllun datblygu ysgol a chyn diwedd y flwyddyn ysgol byddwn wedi ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir i'r rhieni ynglŷn â chyflawniad disgyblion a'r hyn a addysgir.

Byddwn yn cryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy lunio rhaglen benodol fydd yn nodi'r agweddau a'r pynciau sydd i gael sylw ynghyd ag amserlen arsylwi yn y dosbarth. Bydd rôl y corff llywodraethol yn y broses yn cael ei datblygu ymhellach. Byddwn hefyd yn datblygu ymhellach system asesu'r ysgol gan gynnwys y disgyblion yn y broses o asesu eu cynnydd.

Argymhellwyd i'r ysgol gydweithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol i wireddu, mor fuan â phosibl y cynlluniau i gael adeiladau pwrpasol yn lle'r dosbarthiadau symudol. Mae'r AALI bellach wedi rhoddi addewid bendant y bydd yr estyniad newydd wedi ei orffen erbyn Medi 2005 ac y bydd man chwarae pwrpasol i blant dan bump.

Anfonir copi o gynllun gweithredu'r ysgol mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad i'r holl rieni. Bydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni yn adrodd ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran argymhellion yr arolygiad.

Adroddiad gan Mr D Gwynfor Evans
Ysgol Gynradd Llandegfan – Rhagfyr 2004

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Llandegfan
Math o ysgol	Cymuned
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Llandegfan Ynys Môn
Cod post	LL59 5UW
Rhif ffôn	01248 713431

Pennaeth	Mrs Carol Jones
Dyddiad penodi	Gorffennaf 2001
Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol	Mr Mick Barlow
Arolygydd Cofrestredig	Mr D Gwynfor Evans
Dyddiadau'r arolygiad	18-10-04 i 20-10-04

Atodiad B

Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	0	10	24	15	23	32	15	26	145

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	7	0	7

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	20.7
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	24
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.15

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad		
Tymor	D	Ysgol Gyfan
Hydref 2003	91	93.9
Gwanw. 2004	93.6	94.9
Haf 2004	93.1	94.6

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	6.4
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad C

**Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 1:**

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004			Nifer y disgyblion yn B2					22
Canran y disgyblion ar bob lefel								
			D	W	1	2	3	4
Cymraeg	Aseiad Athro	Ysgol	0	0	5	81	14	0
		Cenedlaethol	1	2	11	64	23	0
Saesneg	Aseiad Athro	Ysgol	0	0	0	62	38	0
		Cenedlaethol	0	3	14	63	20	0
Mathemateg	Aseiad Athro	Ysgol	0	0	5	52	43	0
		Cenedlaethol	0	2	11	63	24	0
Gwyddoniaeth	Aseiad Athro	Ysgol	0	0	5	62	33	0
		Cenedlaethol	0	2	10	66	22	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	91%	Yng Nghymru	79%

- D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

**Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 2:**

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004							Nifer y disgyblion yn B6					26
Canran y disgyblion ar bob lefel												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	4	22	41	33	0
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	6	16	45	31	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	4	7	37	52	0
		Cenedlaethol	1	1	2	0	0	6	14	41	33	0
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	46	54	0	0
		Cenedlaethol	1	0	0	1	0	4	18	51	25	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	42	46	12	0
		Cenedlaethol	1	2	0	0	0	3	19	51	21	0
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	33	30	37	0
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	4	19	46	30	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	4	11	52	33	0
		Cenedlaethol	0	2	1	0	0	4	18	41	34	0
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	4	22	41	33	0
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	2	13	49	35	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	8	35	58	0
		Cenedlaethol	1	2	0	0	0	1	10	48	39	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiath)			
yn ôl Aseiad Athro		yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	67%	Yn yr ysgol	85%
Yng Nghymru	71%	Yng Nghymru	71%

- D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
- F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
- W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad Ch

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygwyd yr ysgol gan dîm o dri arolygydd dros gyfnod o dri diwrnod.
- Y pennaeth oedd yr enwebai.
- Arolygwyd tri deg o wersi neu rannau o wersi, yn ogystal â detholiad o waith ymarferol ac ysgrifenedig y disgyblion.
- Gwelwyd gweithgareddau cofrestru, addoli ar y cyd a gweithgareddau allgyrsiol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r staff a'r disgyblion ynghylch eu gwaith.
- Dadansoddwyd yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda'r staff, rhieni a'r corff llywodraethol.
- Mynychodd 18 o rieni y cyfarfod cyn-arolygiad a dadansoddwyd 53 o holiaduron a gwblhawyd ganddynt.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod Tîm	Cyfrifoldebau	Cyfrifoldebau
Mr D G Evans AC	Cyd-destun Crynodeb ac argymhellion Cwestiynau allweddol 1, 5, 6 a 7	Cymraeg hanes addysg gorfforol
Mrs N Williams Tîm	Cwestiynau allweddol 2, 3 a 4	mathemateg celf addysg grefyddol
Mr W Owen Lleyg	Cyfraniadau i gwestiynau 1, 3, 4 a 7	

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.

Adroddiad gan Mr D Gwynfor Evans
Ysgol Gynradd Llandegfan – Rhagfyr 2004

**Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gynradd Llandegfan
Llandegfan
Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5UW**

ADRODDIAD CRYNO I RIENI

**Dyddiad yr Arolygiad:
18-20 Hydref 2004**

gan

**Mr D Gwynfor Evans
W005 15682**

Dyddiad: 20 Rhagfyr 2004

**Dan rif contract Estyn:
T/18/04P**

Adroddiad gan Mr D Gwynfor Evans
Ysgol Gynradd Llandegfan – Rhagfyr 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd (enw'r ysgol) fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o (enw'r ysgol) rhwng (nodwch y dyddiadau). Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth (enw'r Arolygydd Cofrestredig). Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- | | |
|----------------|---|
| Gradd 1 | da gyda nodweddion eithriadol |
| Gradd 2 | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| Gradd 3 | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| Gradd 4 | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| Gradd 5 | llawer o ddiffygion pwysig |

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfarthrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cyd-destun

Natur y darparwr

Mae Ysgol Llandegfan wedi'i lleoli ym mhentref Llandegfan, sydd yn agos i dref Porthaethwy yn Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir sydd yn bennaf ffyniannus; tua 6 y cant o'r disgyblion sydd â hawl i gael prydu bwyd ysgol am ddim.

Adeg yr arolygiad, roedd 145 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 167 adeg yr arolwg diwethaf yn 1998. Mae gan 5 disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae 26 arall ar y gofrestr AAA. Mae uned AAA i wasanaethu'r ardal hefyd wedi'i lleoli yn yr ysgol.

Daw tua 23% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith ond amcangyfrifir bod tua 31% yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol erbyn diwedd CA2. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y derbyn ac am y ddau dymor cyntaf yn B1; yn dilyn hynny addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd CA2.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 1998. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Gorffennaf 2001.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

Yng nghynllun datblygu'r ysgol (CDY) ar gyfer 2004-2005, rhestrir y blaenoriaethau canlynol:

- gwella safon y Gymraeg drwy'r ysgol a datblygu llythrennedd deul;
- parhau i ddatblygu darpariaeth, cyfleoedd a safon addysg gorfforol drwy'r ysgol;
- datblygu sgiliau TGCh y staff a'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol;
- codi safon llythrennedd y bechgyn.

Crynodeb

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn allweddol	Gradd yr arolygiad
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

Yn ystod yr arolygiad, roedd safonau cyflawniad cyffredinol y disgyblion yn y gwersi yr arsylwyd arnynt fel a ganlyn :

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Safonau cyflawniad disgyblion	17%	63%	20%	0%	0%

Yng nghyfnod allweddol 1 a 2, mae'r safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 2
Addysg grefyddol	Gradd 1	Gradd 2

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da iawn tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Mae plant dan bump yn gwneud cynnydd da ym mhob un o'r medrau allweddol

Yn CA1 a CA2, cyflawni'r disgyblion safonau gradd dau mewn siarad a gwranddo yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae safonau ym medrau darllen ac ysgrifennu'n radd dau yn CA1; maent yn radd dau yn Saesneg yn CA2 ac yn radd tri yn y Gymraeg. Gwna'r disgyblion

Adroddiad gan Mr D Gwynfor Evans
Ysgol Gynradd Llandegfan – Rhagfyr 2004

ddefnydd da o'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm; gwnânt ddefnydd cynyddol o TGCh mewn gwahanol bynciau a chyrraeddant safonau gradd tri.

Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf yn arbennig datblygiad sgiliau llafar y disgyblion. Nid yw eu sgiliau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg mor gadarn â'u sgiliau yn Saesneg ac, at ei gilydd, gradd tri yw'r safonau. Mae dwyieithrwydd yn cael ei wau'n llwyddiannus i fywyd cyffredinol yr ysgol.

Mae medrau creadigol a phersonol a chymdeithasol y disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae ganddynt fedrau da mewn datrys problemau.

Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da ac, yn gyffredinol, cyflawnant y targedau a osodir iddynt.

Yn 2004, ar ddiwedd CA1, roedd perfformiad y disgyblion yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon ychydig yn uwch nag ysgolion cyffelyb ledled Cymru ac yn uwch na'r canlyniadau sirol a'r clwstwr teuluol o ysgolion.

Yn CA2 yn 2004 ym mhroffion y CC, roedd cyrraedd y disgyblion yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg ledled Cymru ac yn uwch na chanlyniadau'r sir a'r clwstwr teuluol o ysgolion. Roedd y canlyniadau yn y Gymraeg yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae perfformiad y merched yn sylweddol well na'r bechgyn, yn arbennig yn y Gymraeg.

Mae agweddau disgyblion at ddysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn nodweddiadol rhagorol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd. Maent yn gweithio mewn dull trefnus ac yn datblygu sgiliau dysgu annibynnol pwrpasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oes gan y disgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni safonau uwch.

Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae'r disgyblion hyn yn datblygu'n unigolion cyfrifol ac aeddfed.

Mae mwyafrif llethol y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon; cyfartaledd presenoldeb dros y tri thymor llawn diwethaf oedd 94.5%.

Drwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion cyfle cyfartal yn datblygu'n dda iawn. Maent yn parchu amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol o fewn cymdeithas.

Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o fydd gwaith a'r gweithle.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
30%	53%	17%	0%	0%

Mae'r canrannau hyn yn sylweddol uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) o 95% o wersi yn foddhaol neu well a 50% yn dda neu well. Mae ansawdd yr addysgu wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf.

Adroddiad gan Mr D Gwynfor Evans
Ysgol Gynradd Llandegfan – Rhagfyr 2004

Mae gan yr athrawon berthynas dda iawn gyda'u disgyblion. Caiff y mwyafrif llethol o'r gwersi eu cynllunio'n dda iawn gydag amcanion dysgu clir sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae dealltwriaeth y disgyblion o'u gwaith a'u gallu i ymestyn eu cyfraniadau llafar ac ysgrifenedig yn cael eu datblygu'n dda drwy holi da a phwrpasol. At ei gilydd, mae'r tasgau a osodir yn cael eu gwahaniaethu'n dda sy'n galluogi disgyblion ar draws yr ystod gallu i'w cyflawni'n llwyddiannus.

Defnyddia'r athrawon ystod dda o dechnegau i ymestyn medrau dwyieithog y disgyblion. Mae'r dull trwytho a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn CA1 yn effeithiol. Yn CA2, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer meithrin llythrennedd deuol y disgyblion; ar adegau, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio a'r tasgau ieithyddol a osodir i rai disgyblion yn cydweddu â'u medrau yn y Gymraeg.

Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn dda. Gwneir defnydd priodol o ddulliau addysgu ac adnoddau sy'n sicrhau bod cyfle cyfartal ar gael i bawb.

Mae gan yr ysgol gyfundrefn bwrpasol o asesu cynnydd a chyflawniad y disgyblion ac, at ei gilydd, defnyddia'r athrawon y wybodaeth yn dda i wella'r dysgu a'r addysgu. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Yn yr arfer gorau ceir sylwadau pwrpasol ar lyfrau'r disgyblion sy'n eu cymell i wella eu gwaith ond nid yw'n arfer sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y dosbarthiadau. Mae'r portffolios pynciol sy'n cael eu datblygu, yn cyfrannu'n dda at y broses asesu.

Mae'r dull o gofnodi a chyflwyno adroddiadau yn cyd-fynd â'r gofynion statudol. Rhoddir crynodeb da o gyflawniadau'r disgyblion yn yr adroddiadau blynyddol i rieni er ni roddir digon o arweiniad ynglŷn â'r camau nesaf yn y dysgu.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yn dda iawn. Mae polisiâu a chynlluniau gwaith o ansawdd da i bob pwnc yn y tymor hir, canolig, a byr yn sicrhau cydbwysedd, hyblygrwydd a dilyniant ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm Cymreig yn cael lle amlwg yn y profiadau a gynigir i ddisgyblion. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda hefyd o arferion byw, credoau a diwylliannau pobl eraill yn arbennig drwy gysylltiadau'r ysgol â Lesotho.

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb am yr amgylchedd.

Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda drwy'r amrywiaeth o brofiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion yn y gwersi, yn y cyfnodau cydaddoli a bywyd cyffredinol yr ysgol. Yn y cyfnodau cydaddoli, cynigir cyfleoedd da iawn ar gyfer myfyrio tawel a dathlu cyflawniadau disgyblion gan roi i'r disgyblion brofiadau gwerthfawr a chyfoethog.

Mae'r gweithdrefnau i sicrhau gofal, iechyd a diogelwch a lles disgyblion yn agweddau rhagorol ar waith yr ysgol. Mae gan yr ysgol bolisiâu ar gyfer iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant ac fe'u gweithredir yn effeithiol. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd. Mae amgylchedd yr ysgol yn un hapus a diogel, ble y caiff pob un ei ysgogi a'i herio i gyflawni ei lawn botensial.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac mae'n bodloni gofynion y Cod Ymarfer. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni yn dda iawn. Cyfranna'r rhieni'n dda mewn amrywiaeth o ffyrdd i fywyd a gwaith yr ysgol. Darperir amrywiaeth o wybodaeth ar eu cyfer ond mae nifer o rieni yn dymuno cael mwy o wybodaeth am yr hyn a addysgir. Mae'r partneriaethau

gyda'r gymuned ac ysgolion eraill yn effeithiol. Mae strwythur priodol i ddatblygu ymhellach gysylltiadau gyda busnes a diwydiant.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad da iawn i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir ynglŷn â chyfeiriad yr ysgol i'r dyfodol a'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliannau pellach. Mae'n derbyn cefnogaeth lawn y dirprwy bennaeth yn yr ymgyrch i wireddu nodau ac amcanion yr ysgol.

Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd cadarn sydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae cyfraniad pob aelod o staff yr ysgol yn cael ei werthfawrogi ac mae awyrgylch o gydweithio ac ymddiriedaeth yn nodweddu bywyd yr ysgol.

Mae gosod targedau wedi'i ddatblygu'n dda yn yr ysgol. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod anghenion hyfforddi staff a hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol.

Sefydlwyd diwylliant clir o huanarfarnu yn yr ysgol. Caiff y cydlynwyr gyfle i gael trosolwg o waith disgyblion ar draws yr ysgol ac adrodd yn ôl i'w cydweithwyr. Hyd yma, ni luniwyd rhaglen hunanarfarnu ffurfiol dros gyfnod o amser sy'n nodi'r agweddau a'r pynciau sydd i gael sylw ynghyd ag amserlen arsylwi yn y dosbarthiadau.

Mae'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn arf gwerthfawr yn strategaeth rheoli'r ysgol. Mae'n gosod nodau a thargedau realistig sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf. Aethpwyd i'r afael yn dda â'r materion allweddol ac o ganlyniad, mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn weithgar ac yn gefnogol iawn i holl waith a datblygiad yr ysgol. Mae'r aelodau yn ymwelwyr cyson â'r ysgol a chyfrannant yn uniongyrchol tuag at gynllunio strategol yr ysgol drwy'r gwahanol is baneli a chyfarfodydd llawn y corff llywodraethu. Maent wedi dechrau monitro ansawdd y ddarpariaeth ond nid yw eu cyfraniad i'r broses hunanarfarnu ar hyn o bryd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â'r cymwysterau priodol ar gyfer ei hanghenion. Defnyddir y staff yn effeithiol ac mae'r trefniant o gyfnewid staff i gyflwyno agweddau o'r cwricwlwm i wahanol ddsbarthiadau yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau ar gyfer pob ystod oedran ac, yn gyffredinol, ar gyfer pob pwnc. Cânt eu defnyddio'n effeithiol ac, at ei gilydd, maent mewn cyflwr da. Ers yr arolwg diwethaf, ychwanegwyd at adeiladau'r ysgol sydd wedi sicrhau llyfrgell ganolog i'r ysgol. Mae'r prif adeilad a thir yr ysgol mewn cyflwr da ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n lân a thaclus. Fodd bynnag, mae cyflwr y ddau ddsbarth symudol yn wael ac mae cynlluniau i gael dosbarthiadau parhaol yn eu lle yn y dyfodol agos. Nid oes man chwarae wedi cael ei neilltuo i blant dan bump. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol, y gymuned, ymweliadau ac ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

1. barhau gyda'u hymdrechion i godi safonau cyflawniad disgyblion yn y Gymraeg yn CA2 ac i ddatblygu ymhellach eu medrau dwyieithog;
2. ddatblygu ymhellach system asesu'r ysgol drwy gynnwys y disgyblion yn y broses o asesu eu cynnydd a hybu eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella;
3. ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir i'r rhieni ynglŷn â chyflawniad disgyblion a'r hyn a addysgir;
4. gryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy :
 - lunio rhaglen benodol dros gyfnod o amser sy'n nodi'r agweddau a'r pynciau sydd i gael sylw ynghyd ag amserlen arsylwi yn y dosbarthiadau,
 - ddatblygu ymhellach rôl y corff llywodraethol yn y broses;
5. drwy gydweithio gyda'r AALI, wireddu, mor fuan â phosibl, y cynlluniau i gael adeiladau pwrpasol yn lle'r dosbarthiadau symudol ac i ddarparu man chwarae pwrpasol i blant dan bump.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwртеisi trwy gydol yr arolygiad.